OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2009 Rhif 2623 (Cy.215)

2009 No. 2623 (W.215)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009

The Wales Centre for Health (Transfer of Functions, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu ar 1 Hydref 2009 y corff o'r enw Canolfan Iechyd Cymru a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r Gorchymyn a bennir yn erthygl 7 ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau (erthygl 3); eiddo (erthygl 4) a hawliau a rhwymedigaethau (erthygl 5) i Weinidogion Cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order abolishes on 1 October 2009 the body known as the Wales Centre for Health established under section 2 of the Health (Wales) Act 2003.

This Order revokes the Order specified in article 7 and makes provision for the transfer of functions (article 3); property (article 4) and rights and liabilities (article 5) to the Welsh Ministers.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2623 (Cy.215)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009

Gwnaed	*28 Medi 2009*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 3(4), (5) a (6) ac 8 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn–

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "Canolfan Iechyd Cymru" ("*Wales Centre for Health*") yw'r corff o'r enw Canolfan Iechyd Cymru neu Wales Centre for Health a sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003;

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Iechyd (Cymru) 2003;

ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Hydref 2009.

(**1**) 2003 p.4.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2009 No. 2623 (W.215)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Wales Centre for Health (Transfer of Functions, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2009

Made	*28 September 2009*
Coming into force	*1 October 2009*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 3(4), (5) and (6) and 8 of the Health (Wales) Act 2003(**1**), make the following Order–

Title, commencement and application

1.–(1) The title of this Order is the Wales Centre for Health (Transfer of Functions, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2009 and it comes into force on 1 October 2009.

(2) This Order applies to Wales.

Interpretation

2. In this Order–

"the 2003 Act" ("*Deddf 2003*") means the Health (Wales) Act 2003;

"transfer date" ("*dyddiad trosglwyddo*") means 1 October 2009;

"Wales Centre for Health" ("*Canolfan Iechyd Cymru*") means the body known as Wales Centre for Health established by section 2 of the Health (Wales) Act 2003.

(**1**) 2003 c.4.

Trosglwyddo swyddogaethau Canolfan Iechyd Cymru i Weinidogion Cymru

3. A hynny'n effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, trosglwyddir holl swyddogaethau Canolfan Iechyd Cymru, fel y'u nodir yn adran 3 o Ddeddf 2003, i Weinidogion Cymru.

Trosglwyddo eiddo

4. A hynny'n effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, trosglwyddir holl eiddo Canolfan Iechyd Cymru, gan gynnwys yr eiddo a restrir yn Atodlen 1, i Weinidogion Cymru.

Gorfodadwyedd hawliau a throsglwyddo rhwymedigaethau

5.–(1) Trosglwyddir i Weinidogion Cymru unrhyw hawl a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn orfodadwy gan neu yn erbyn Canolfan Iechyd Cymru.

(2) Trosglwyddir i Weinidogion Cymru unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o arfer ei swyddogaethau a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn orfodadwy yn erbyn Canolfan Iechyd Cymru.

Diddymu Canolfan Iechyd Cymru

6. Diddymir Canolfan Iechyd Cymru a hynny'n effeithiol o 1 Hydref 2009 ymlaen.

Dirymu Canlyniadol Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004

7. Diddymir Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004(**1**) a hynny'n effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

Transfer of the functions of the Wales Centre for Health to the Welsh Ministers

3. With effect from the transfer date, all the functions of the Wales Centre for Health, as set out in section 3 of the 2003 Act, are transferred to the Welsh Ministers.

Transfer of property

4. With effect from the transfer date, all property of the Wales Centre for Health will transfer to the Welsh Ministers, including the property listed in Schedule 1.

Enforceability of rights and transfer of liabilities

5.–(1) Any right that was immediately before the transfer date enforceable by or against the Wales Centre for Health is transferred to the Welsh Ministers.

(2) Any liability arising from the exercise of its functions that was, immediately before the transfer date, enforceable against the Wales Centre for Health is transferred to the Welsh Ministers.

Abolition of the Wales Centre for Health

6. The Wales Centre for Health is abolished with effect from 1 October 2009.

Consequential revocation of the Wales Centre for Health (Constitution, Membership and Procedures) Regulations 2004

7. The Wales Centre for Health (Constitution, Membership and Procedures) Regulations 2004(**1**) are revoked with effect from the transfer date.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Medi 2009

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

28 September 2009

(**1**) O.S. 2004/1742 (Cy. 181).

(**1**) S.I. 2004/1742 (W. 181).

ATODLEN 1

Erthygl 4

Eiddo	Deiliadaeth
Y Llawr Cyntaf, 14 Heol y Gadeirlan Caerdydd, CF11 9LJ	Lesddaliad
Llawr Daear, 14 Heol y Gadeirlan Caerdydd, CF11 9LJ	Lesddaliad
Swyddfa yn Uned S5 Neuadd Croesnewydd Parc Technoleg Wrecsam Wrecsam , LL13 7YP	Lesddaliad

SCHEDULE 1

Article 4

Property	Tenure
First Floor, 14 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9LJ	Leasehold
Ground Floor, 14 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9LJ	Leasehold
Office within Unit S5 Croesnewydd Hall Wrexham Technology Park Wrexham, LL13 7YP	Leasehold

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W549/10/09 ON